Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 998 (Cy. 169)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Cyllid Llywodraeth Leol (Diwygiadau a Dirymiadau Canlyniadol ac Amrywiol) (Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 ("Deddf 2024") i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") a Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992"). Maent hefyd yn gwneud diwygiadau eraill nad ydynt yn ganlyniadol i Ddeddf 2024 ac yn dirymu offerynnau statudol neu'n hepgor darpariaethau nad ydynt yn cael effaith mwyach.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys tair Rhan.

Mae Rhan 1 yn nodi'r darpariaethau o ran enw, cymhwyso a dod i rym.

Daw Rhan 2 (sy'n cynnwys rheoliadau 2 i 22) i rym ar 16 Tachwedd 2024, i gyd-fynd â phan ddaw i rym y darpariaethau yn Neddf 2024 y maent yn ymwneud â hwy, neu yn achos darpariaethau nad ydynt yn cael effaith mwyach, i'w dileu o'r llyfr statud cyn gynted â phosibl.

Mae rheoliadau 2 i 5, 8 a 12 i 21 yn sicrhau bod yr offerynnau statudol perthnasol yn cyfeirio at adrannau newydd 41ZA a 52ZA o Ddeddf 1988 (fel y bo'n briodol), sy'n ymdrin â llunio a chadw rhestrau ardrethu annomestig lleol a chanolog o ran Cymru.

Mae rheoliadau 6, 7, 9 a 10 yn ymwneud â rhestrau prisio'r dreth gyngor. Mae rheoliad 6 yn diwygio rheoliad 6 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Lleoliad Anheddau a'u Prisio) 1992 i sicrhau y bydd anheddau

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

yng Nghymru yn parhau i gael eu prisio drwy gyfeirio at y dyddiadau cywir pan lunnir rhestrau prisio newydd. Mae rheoliad 7 yn sicrhau bod y darpariaethau yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Cynnwys Rhestrau Prisio) 1992 yn gymwys i restrau prisio a lunnir o dan y darpariaethau newydd yn adran 22B o Ddeddf 1992 (fel y'u mewnosodwyd gan Ddeddf 2024) yn ogystal â rhestrau prisio a lunnir o dan adrannau 22 a 22A o Ddeddf 1992 o ran Cymru. Mae rheoliad 9 yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993 i sicrhau y cyfeirir at y darpariaethau priodol yn Neddf 1992. Mae rheoliad 10 yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) 1995 o ganlyniad i'r dyletswyddau newydd ar awdurdodau bilio a gyflwynir gan Ddeddf 2024 mewn perthynas ag adneuo a chadw rhestrau prisio treth gyngor.

Mae rheoliad 11 yn hepgor erthyglau 5 a 10 o Orchymyn Ad-drefnu Llywodraeth Leol (Cymru) (Cyllid) (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaethau Trosiannol) 1996 ("Gorchymyn 1996") gan nad ydynt yn cael effaith mwyach. Mae rheoliad 11 hefyd yn diwygio erthygl 6(8) o Orchymyn 1996 drwy ailddatgan diffiniadau ar gyfer termau a ddefnyddir yn y ddarpariaeth honno a oedd wedi eu cynnwys yn flaenorol yn adran 41A o Ddeddf 1988, na ellir eu cymhwyso mwyach am fod yr adran hon wedi ei diddymu gan Ddeddf 2024.

Mae rheoliad 22 yn dirymu Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad yn ôl Disgresiwn) 1989 i ddileu cyfyngiadau ar y pwerau i awdurdodau bilio ddyfarnu rhyddhad yn ôl disgresiwn. Mae hefyd yn dirymu Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu a Rhyddhad yn ôl Disgresiwn) (Cymru) (Diwygio) 2006 a Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014 gan nad ydynt yn cael effaith mwyach.

Daw Rhan 3 (sy'n cynnwys rheoliadau 23 i 27) i rym ar 1 Ebrill 2025, i gyd-fynd â phan ddaw i rym y darpariaethau sy'n ymwneud â rhyddhad elusennol yn adran 6 a'r lluosydd yn adran 10 o Ddeddf 2024.

Mae rheoliad 23 yn diwygio rheoliad 3(2) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989 i egluro, at ddibenion Rhan 2 o'r Rheoliadau hynny, na thrinnir yr amodau yn adrannau 43(1) na 45(1) o Ddeddf 1988 fel pe baent wedi eu cyflawni pan fo'r swm a godir mewn cysylltiad â hereditament yn sero yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988.

Mae rheoliad 24 yn diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Darpariaethau Amrywiol) 1990 ("Rheoliadau 1990") i ddarparu, pan fo mwy nag un perchennog neu feddiannydd ar hereditament, yr ystyrir bod yr amod ym mharagraff

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

2(3) o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988 wedi ei gyflawni hyd yn oed pan nad yw ond un o'r cydberchnogion neu'r cydfeddianwyr hynny yn glwb chwaraeon amatur cymunedol cofrestredig. Mae hyn yn unioni'r sefyllfa â sefyllfa trethdalwyr sy'n elusennau neu'n ymddiriedolwyr elusennau.

Mae rheoliad 25 yn hepgor paragraff 39 o Atodlen 1 i Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) 2007, a ddiwygiodd Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 1988. Gan fod Rhan 1 o Atodlen 7 wedi ei hepgor o Ddeddf 1988 gan Ddeddf 2024, nid yw'r diwygiadau blaenorol a wnaed gan baragraff 39 yn cael effaith mwyach.

Mae rheoliad 26 yn diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017 i adlewyrchu'r darpariaethau o ran lluosyddion yn Atodlen 7 i Ddeddf 1988 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2024.

Mae rheoliad 27 yn hepgor rheoliad 7 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024 i ddirymu'n benodol y diwygiad a wnaed gan y rheoliad hwnnw i reoliad 3(7) o Reoliadau 1990. Diben y diwygiad yw sicrhau nad yw'r darpariaethau yn rheoliad 3(7) o Reoliadau 1990 ond yn cynnwys diwygiadau a wneir o ran Lloegr.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 998 (Cy. 169)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyllid Llywodraeth Leol (Diwygiadau a Dirymiadau Canlyniadol ac Amrywiol) (Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Hydref 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *7 Hydref 2024* |

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(3) a (4)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 47(8), a 50(1) a (3), o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**), a pharagraff 1 o Atodlen 9 iddi, paragraffau 1(1) a 2(4)(e) o Atodlen 2 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**2**) ac adran 54(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994(**3**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**4**), a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 173(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac

(**1**) 1988 p. 41. Gweler adran 67(12A) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 am y diffiniad o "appropriate national authority". Diwygiwyd paragraff 1 o Atodlen 9 gan baragraff 89(2) o Atodlen 13 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 (p. 15).
(**2**) 1992 p. 14.
(**3**) 1994 p. 19.
(**4**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Mae'r swyddogaethau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Etholiadau (Cymru) 2021(**1**), adran 17(2) o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023(**2**) ac adran 22(1)(a) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024(**3**).

# RHAN 1

## Cyflwyniad

**Enwi, cymhwyso a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyllid Llywodraeth Leol (Diwygiadau a Dirymiadau Canlyniadol ac Amrywiol) (Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw Rhannau 1 a 2 i rym ar 16 Tachwedd 2024.

(4) Daw Rhan 3 i rym ar 1 Ebrill 2025.

# RHAN 2

## Diwygio is-ddeddfwriaeth sy'n dod i rym ar 16 Tachwedd 2024

**Diwygio Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987**

**2.** Ym mharagraff 5(4) o Atodlen 3 (dosrannu costau tai) i Reoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987(**4**), yn lle'r diffiniad o "local non-domestic rating list" rhodder—

""local non-domestic rating list" means—

(a) as respects England, a list compiled and maintained under section 41(1) of the Act of 1988(**5**);

(b) as respects Wales, a list compiled and maintained under section 41ZA of the Act of 1988(**6**);".

(**1**) 2021 dsc 1.
(**2**) 2023 p. 53. Gweler adran 17(3) am y diffiniad o "the appropriate national authority".
(**3**) 2024 dsc 6.
(**4**) O.S. 1987/1967; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1995/1613.
(**5**) Diwygiwyd adran 41(1) gan adran 2(2)(a) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 (dsc 6) i fod yn gymwys o ran Lloegr yn unig.
(**6**) Mewnosodwyd adran 41ZA yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p. 41) gan adran 2(3) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 (dsc 6).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Canolog) 1989**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Canolog) 1989(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5(2) (amser cyflwyno hysbysiadau galw am dalu), ar ôl "section 52(5)" mewnosoder "or 52ZA(6)(**2**)".

(3) Yn rheoliad 6(1) (taliadau o dan hysbysiadau galw am dalu), ar ôl "section 52(5)" mewnosoder "or 52ZA(6)".

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5(2) (cyflwyno hysbysiadau galw am dalu), ar ôl "section 41(5)" mewnosoder "or 41ZA(6)".

(3) Yn rheoliad 6(1) (taliadau o dan hysbysiadau galw am dalu), ar ôl "section 41(5)" mewnosoder "or 41ZA(6)".

(4) Ym mharagraff 6(1) o Ran 2 o Atodlen 1 (diweddu ac addasu rhandaliadau ardreth annomestig), ar ôl "section 41(5)" mewnosoder "or 41ZA(6)".

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) 1989**

**5.** Yn rheoliad 6 (newid rhestrau ardrethu) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) 1989(**4**)—

(a) daw'r ddarpariaeth bresennol yn baragraff (1);

(b) yn y paragraff hwnnw, ar ôl "billing authority" mewnosoder "in England";

(c) ar ôl y paragraff hwnnw mewnosoder—

"(2) Where a copy of a local or central rating list has been sent to a billing authority in Wales or the Welsh Ministers under section 41ZA(6) (local lists) or 52ZA(6) (central lists) of the Act and the valuation officer alters the list before it comes into force—

---

(**1**) O.S. 1989/2260, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) Mewnosodwyd adran 52ZA yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p. 41) gan adran 3(3) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 (dsc 6).

(**3**) O.S. 1989/1058; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1990/145, 1993/774 a 1993/616.

(**4**) O.S. 1989/2303; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1993/616.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) the officer shall inform the billing authority or the Welsh Ministers, as the case may be, and

(b) the authority or the Welsh Ministers, as the case may be, must alter the copy accordingly."

**Diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Lleoliad Anheddau a'u Prisio) 1992**

**6.**—(1) Mae rheoliad 6 (prisio anheddau: cyffredinol) o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Lleoliad Anheddau a'u Prisio) 1992(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1), yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) in relation to a list compiled for a billing authority in Wales under section 22B of the Act, on the date determined under section 21(2A)(b) of the Act as the appropriate date for the list in question."

(3) Ym mharagraff (3)(b)(v), yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) in relation to a list compiled for a billing authority in Wales under section 22B of the Act, on the date on which the list was compiled."

(4) Ym mharagraff (5A)(a), yn lle is-baragraff (ii) rhodder—

"(ii) a valuation list compiled for a billing authority in Wales under section 22B of the Act, on the date on which the list was compiled."

(5) Ym mharagraff (5A)(d), yn lle is-baragraff (ii) rhodder—

"(ii) in relation to a list compiled for a billing authority in Wales under section 22B of the Act, on the date on which the list was compiled."

**Diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Cynnwys Rhestrau Prisio) 1992**

**7.** Yn rheoliad 1(2) (dehongli) o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Cynnwys Rhestrau Prisio) 1992(**2**) yn lle'r diffiniad o "list" rhodder—

---

(**1**) O.S. 1992/550; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1994/1747 a 2005/701 (Cy. 60).

(**2**) O.S. 1992/553, a diwygiwyd gan O.S. 1996/619.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"“list” means—

(a) a valuation list compiled for a billing authority in England under section 22 of the Act;

(b) a valuation list compiled for a billing authority in Wales under sections 22, 22A or 22B of the Act.”

**Diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992**

**8.**—(1) Mae Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1 (rheolau ar gyfer cyfrifo cyfraniadau ardrethu annomestig), ym mharagraff 4(2)—

(a) yn lle “section 41(1)” rhodder “section 41ZA(1)”;

(b) yn lle “section 41(5)” rhodder “section 41ZA(6)”.

(3) Yn Rhan 1 o Atodlen 2 (rhagdybiaethau sy’n ymwneud â symiau dros dro)—

(a) ym mharagraff 2(4)—

(i) yn lle “section 41(1)” rhodder “section 41ZA(1)”;

(ii) yn lle “section 41(5)” rhodder “section 41ZA(6)”;

(b) ym mharagraff 2(5), yn lle “section 41(5)” rhodder “section 41ZA(6)”;

(c) ym mharagraff 2(6), yn lle “section 41(5)” rhodder “section 41ZA(6)”.

**Diwygio Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993**

**9.** Yn rheoliad 2(2)(b) (dehongli) o Reoliadau’r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993(**2**)—

(a) yn lle “or (3)(b)” rhodder “, (3) or (3A)(**3**)”;

(b) ym mharagraff (i), ar ôl “section 22B(7)” mewnosoder “or (7A)(**4**)”.

---

(**1**) O.S. 1992/3238; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 2023/1292 (Cy. 229).

(**2**) O.S. 1993/255; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 2004/460 (Cy. 45).

(**3**) Mewnosodwyd is-adran (3A) yn adran 22B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14) gan adran 20(1)(b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 (dsc 6).

(**4**) Mewnosodwyd is-adran (7A) yn adran 22B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14) gan adran 20(1)(d) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 (dsc 6).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) 1995**

**10.** Yn rheoliad 1(3) (dehongli) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) 1995(**1**), yn y diffiniad o "the authority's list", ar ôl "22B(10)" mewnosoder "or 22B(10A)(a), or kept by it electronically under section 22B(10A)(b)(**2**)".

**Diwygio Gorchymyn Ad-drefnu Llywodraeth Leol (Cymru) (Cyllid) (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaethau Trosiannol) 1996**

**11.**—(1) Mae Gorchymyn Ad-drefnu Llywodraeth Leol (Cymru) (Cyllid) (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaethau Trosiannol) 1996(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer erthygl 5 (Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993).

(3) Yn erthygl 6(8) (diffiniadau yng nghyd-destun swyddogion prisio), yn lle'r geiriau o ""old billing authority"" hyd at "the 1988 Act" rhodder—

> ""old authority" has the same meaning as in the Local Government (Wales) Act 1994(**4**);
>
> "old billing authority" means a billing authority which is an old authority;
>
> "new billing authority" means a billing authority which is a new principal council;
>
> "new principal council" has the same meaning as in the Local Government (Wales) Act 1994;
>
> "valuation officer" means a valuation officer for an old billing authority;
>
> "new valuation officer" means a valuation officer for a new billing authority".

(4) Hepgorer erthygl 10 (adennill cymhorthdal mewn rhai achosion).

**Diwygio Rheoliadau Lwfans Ceisio Gwaith 1996**

**12.** Ym mharagraff 5(4) o Atodlen 2 (dosrannu costau tai) i Reoliadau Lwfans Ceisio Gwaith 1996(**5**), yn lle'r diffiniad o "local non-domestic rating list" rhodder—

---

(**1**) O.S. 1995/2561; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2004/3094 (Cy. 268) a 2016/969 (Cy. 238).

(**2**) Mewnosodwyd is-adran (10A) yn adran 22B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14) gan adran 20(1)(g) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 (dsc 6).

(**3**) O.S. 1996/619, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**4**) 1994 p. 19.

(**5**) O.S. 1996/207, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

““local non-domestic rating list” means—

(a) as respects England, a list compiled and maintained under section 41(1) of the Act of 1988;

(b) as respects Wales, a list compiled and maintained under section 41ZA of the Act of 1988;”.

**Diwygio Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) 2000**

**13.** Yn rheoliad 2A(2)(b)(ii)(aa) (tybiaethau rhagnodedig: prisio o 1 Ebrill 2010) o Reoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) 2000(**1**), yn lle “adrannau 41(2) a 52(2)” rhodder “adrannau 41ZA(2) a 52ZA(2)”.

**Diwygio Rheoliadau Credyd Pensiwn y Wladwriaeth 2002**

**14.** Ym mharagraff 6(4) o Atodlen 2 (dosrannu costau tai) i Reoliadau Credyd Pensiwn y Wladwriaeth 2002(**2**), yn lle’r diffiniad o “local non-domestic rating list” rhodder—

““local non-domestic rating list” means—

(a) as respects England, a list compiled and maintained under section 41(1) of the Act of 1988;

(b) as respects Wales, a list compiled and maintained under section 41ZA of the Act of 1988;”.

**Diwygio Rheoliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth 2008**

**15.** Ym mharagraff 7(4) o Atodlen 6 (dosrannu costau tai) i Reoliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth 2008(**3**), yn lle’r diffiniad o “local non-domestic rating list” rhodder—

““local non-domestic rating list” means—

(a) as respects England, a list compiled and maintained under section 41(1) of the Act of 1988;

(b) as respects Wales, a list compiled and maintained under section 41ZA of the Act of 1988;”.

---

(**1**) O.S. 2000/1097 (Cy. 75); yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 2010/146 (Cy. 21).

(**2**) O.S. 2002/1792, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(**3**) O.S. 2008/794, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012**

**16.** Yn rheoliad 38(5) (swm y gosb) o Reoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012(**1**), yn lle'r diffiniad o "local non-domestic rating list" rhodder—

""local non-domestic rating list" means—

(a) in relation to England, a list compiled and maintained under section 41 of the Local Government Finance Act 1988;

(b) in relation to Wales, a list compiled and maintained under section 41ZA of the Local Government Finance Act 1988;".

**Diwygio Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015**

**17.** Yn rheoliad 41(5) (tor rheoliadau mewn perthynas ag eiddo rhent preifat annomestig) o Reoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015(**2**), yn lle'r diffiniad o "local non-domestic rating list" rhodder—

""local non-domestic rating list" means—

(a) in relation to England, a list maintained under section 41 of the Local Government Finance Act 1988;

(b) in relation to Wales, a list compiled and maintained under section 41ZA of the Local Government Finance Act 1988;".

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2017**

**18.** Yn rheoliad 1(3) (dehongli) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2017(**3**), yn y diffiniad o "rhestr", yn lle "adran 41 neu 41A" rhodder "adran 41ZA".

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2022**

**19.** Yn rheoliad 2 (dehongli) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2022(**4**)—

---

(**1**) O.S. 2012/3118, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 2015/962, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) O.S. 2017/327 (Cy. 82).

(**4**) O.S. 2022/1350 (Cy. 272), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) yn y diffiniad o "rhestr ganolog", yn lle "a lunnir ac a gedwir yn unol ag adran 52" rhodder "a gedwir yn unol ag adran 52ZA(10)";

(b) yn y diffiniad o "rhestr leol", yn lle a "lunnir ac a gedwir yn unol ag adran 41" rhodder "a gedwir yn unol ag adran 41ZA(10)".

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023**

**20.**—(1) Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli: cyffredinol)—

(a) yn y diffiniad o "rhestr ganolog", yn lle "adrannau 52 a 54A" rhodder "adran 52ZA";

(b) yn y diffiniad o "rhestr leol", yn lle "adrannau 41 a 54A" rhodder "adran 41ZA".

(3) Yn rheoliad 30(1) (hysbysu am newid), hepgorer "a adneuwyd yn ei brif swyddfa o dan adran 41(6B) o'r Ddeddf(**2**)".

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Gwelliannau) (Cymru) 2023**

**21.** Yn rheoliad 2 (dehongli) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Gwelliannau) (Cymru) 2023(**3**)—

(a) yn y diffiniad o "rhestr ganolog", yn lle "adran 52" rhodder "adran 52ZA";

(b) yn y diffiniad o "rhestr leol", yn lle "adran 41" rhodder "adran 41ZA".

**Dirymu**

**22.** Mae'r offerynnau statudol a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad yn ôl Disgresiwn) 1989(**4**);

(b) Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu a Rhyddhad yn ôl Disgresiwn) (Cymru) (Diwygio) 2006(**5**);

(c) Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014 (**6**).

---

(**1**) O.S. 2023/350 (Cy. 51), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) Nid yw adran 41(6B) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p. 41) ond yn gymwys o ran Lloegr yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 (dsc 6).

(**3**) O.S. 2023/1354 (Cy. 244).

(**4**) O.S. 1989/1059.

(**5**) O.S. 2006/3392 (Cy. 311).

(**6**) O.S. 2014/1370 (Cy. 139).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# RHAN 3

## Diwygio is-ddeddfwriaeth sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2025

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989**

**23.** Mae'r diwygiadau a wnaed i reoliad 3(2) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989(**1**) gan baragraff 1(b) o Atodlen 1 i Orchymyn Llywodraeth Leol (Ardrethu Annomestig) (Diwygiadau Canlyniadol) (Lloegr) 2008(**2**) a rheoliad 2(b) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Canlyniadol a Diwygiadau Eraill etc.) (Lloegr) 2023(**3**) yn gymwys mewn perthynas â hereditamentau yng Nghymru.

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Darpariaethau Amrywiol) 1990**

**24.**—(1) Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Darpariaethau Amrywiol) 1990(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(7) (cydberchnogion a chydfeddianwyr), ar y dechrau mewnosoder "In relation to England,".

(3) Ar ôl rheoliad 3(7), mewnosoder—

"(7A) In relation to Wales, for the purposes of any time to which paragraph (2)(b) applies—

(a) the requirement in paragraph 2(2)(a) of Schedule 4ZA and paragraph 2(3) of Schedule 4ZB to the Act that the ratepayer should be a charity or trustees for a charity is met if one or more of the owners or occupiers jointly and severally liable is a charity or (as the case may be) some or all of them are trustees for a charity; and

(b) the requirement in paragraph 2(2)(b) of Schedule 4ZA and paragraph 2(8) of Schedule 4ZB to the Act that the ratepayer should be a registered club

(**1**) O.S. 1989/1058.

(**2**) O.S. 2008/428, a ddiwygiodd O.S. 1989/1058 o ran Lloegr yn unig.

(**3**) O.S. 2023/1251, a ddiwygiodd O.S. 1989/1058 o ran Lloegr yn unig ac y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**4**) O.S. 1990/145; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 2024/37 (Cy. 12).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

for the purposes of Chapter 9 of Part 13 of the Corporation Tax Act 2010(**1**) (community amateur sports clubs) is met if one or more of the owners or occupiers jointly and severally liable is such a club."

**Diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) 2007**

**25.** Yng Ngorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) 2007(**2**), yn Atodlen 1, hepgorer paragraff 39 (addasu Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988).

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017**

**26.**—(1) Mae Atodlen 1 i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017(**3**) (materion i'w cynnwys mewn hysbysiadau galw am dalu) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 3 rhodder—

"(3) Y lluosydd ardrethu annomestig a gyfrifwyd ar gyfer y flwyddyn berthnasol yn unol â pharagraff A15 neu, yn ôl y digwydd, baragraff A14 o Ran A2 o Atodlen 7 i Ddeddf 1988(**4**)."

(3) Ym mharagraff 5, yn lle "paragraff 1(1)(b)", rhodder "paragraff 1(1)".

(**1**) 2010 p. 4. Mae Pennod 9 yn darparu ar gyfer cofrestru clybiau chwaraeon amatur cymunedol ac esemptio clybiau cofrestredig rhag treth. Mae'n seiliedig ar Atodlen 18 i Ddeddf Cyllid 2002 (p. 23), a ddiddymwyd gan baragraff 1 o Atodlen 3 i Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010.

(**2**) O.S. 2007/1388, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) O.S. 2017/113 (Cy. 39); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2023/1154 (Cy. 199) a 2024/37 (Cy. 12).

(**4**) Mewnosodwyd Rhan A2 gan adran 10 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 (dsc 6).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024**

**27.** Yn Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024(**1**), hepgorer rheoliad 7 (diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Darpariaethau Amrywiol) 1990).

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
4 Hydref 2024

(**1**) O.S. 2024/37 (Cy. 12).